**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 19 Rhagfyr 2023 am 7:00yh drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Richard Robinson, Ann Lawton, Gwynedd Williams, Philip Roberts, Hefin Jones, Beca Brown, Berwyn Parry Jones.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Rhys Parry

**Aelodau o'r cyhoedd:** Dim

**Clerc:** Meirion Jones

**1234 I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchwyd am bresenoldeb yr aelodau

**1235 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel y nodir uchod.

**1236. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1237. I gadarnhau cofnodion cyfarfod 21 Tachwedd 2023**

Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

**1238. Unrhyw fater yn codi o gofnodion cyfarfod 21 Tachwedd 2023**

**1239. I gadarnhau cofnodion cyfarfod arbennig o'r cyngor a gynhaliwyd 5 Rhagfyr 2023**

Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

**1240. Unrhyw fater yn codi o gofnodion cyfarfod 5 Rhagfyr 2023**

Dim

**1241. Fod y cyngor yn penderfynu os am barhau a'i gynllun dosbarthu grit i drigolion mewn tywydd garw ac ystyried pa leoliadau fydd y cyngor yn gyfrifol am raeanu (Cyng. Berwyn Parry Jones).**

Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi cymryd y cyfrifoldeb yn ôl am lenwi bocsys melyn ar gyfer cadw grir. Nodwyd fod y cyngor cymuned wedi cymryd drosodd i ddarparu grit oherwydd i Gyngor Gwynedd benderfynu peidio gwneud hyn. Mae angen i'r cyngor cymuned benderfynu os ydi o yn mynd i barhau a darparu grit neu ei adael i Gyngor Gwynedd lenwi'r bocsys melyn.

**Penderfynwyd:**

**a)** Ni fydd y Cyngor Cymuned yn darparu grit i drigolion ar gyfer gaeaf 2023 / 2024 oherwydd bod Cyngor Gwynedd yn darparu'r gwasanaeth.
**b)** Fod y cyngor cymuned dim ond yn graenu ei eiddo ei hun, sef Y Fynwent a maes Parcio ger y Spar.
**c)** Ein bod yn cysylltu â'n contractwr i holi pe bai yn fodlon ymgymryd â'r gwaith
**d)** Fod asesiad risg yn cael ei gario allan ar y gwaith

**1242. Fod y cyngor yn ystyried ac yn darparu ymateb i Ymgynghoriad Strategaeth Diogelwch Ffyrdd (Cyng. Berwyn Parry Jones)**

Adroddwyd fod yr ymgynghoriad eisoes wedi ei gylchredeg beth amser yn ôl bellach a bod angen ystyried ymateb gan y cyngor neu bob aelod yn unigol.

**Penderfynwyd:** I bob aelod ei lenwi ar sail unigolyn

**1243. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Lanrug a Chwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**1244. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C23/0931/23/DA
**Math o Gais:** Diwygiad Ansylweddol
**Bwriad:** Diwygio gosodiad to ysgubor ystlumod (o G-D i G-D, gweler cynlluniau diwygiedig MK2 Rev9) mae manylion eraill yn cadw cynllun MK2 Rev8 (caniatawyd gan Gyngor ar 25.08.2023)
**Ymgeisydd:** Mr Mads Huuse
**Cyfeiriad:** Awel Y Mynydd, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RY
**Cyfeirnod Grid:** 253370.59, 361281.4
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**PENDERFYNWYD:** Dim sylwadau

b) **Rhif y Cais:** C23/0959/15/AC
**Math o Gais:** Diddymu/Amrywio Amod(au)
**Bwriad:** Cais ar gyfer diwygio amod 1 o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C21/0934/15/AC ar gyfer gosod llinell cyswllt grid 132KV tanddaearol rhwng safle storio pwmp Glyn Rhonwy ac Is-orsaf Pentir er mwyn ymestyn y cyfnod dechreuad y datblygiad o 2 flynedd ychwanegol
**Ymgeisydd:** Mr Christopher Williamson
**Cyfeiriad:** Tir Stâd Glyn Rhonwy, Llanberis, Gwynedd, LL55 4EL
**Cyfeirnod Grid:** 256402.14, 363841.28
**Ward:** Llanberis
**Parish / Cymuned:** Llanberis

**PENDERFYNWYD:** Gwrthwynebu ar sail pryderon amgylcheddol ynghyd a phryderon am y datblygiad yn gyffredinol.

**1246. Mae’r cyngor wedi derbyn cais am loches bws ger Croesffordd Marc.**

Fod y cyngor yn cario allan asesiad llawn o gyflwr lleoliadau bws a chario allan asesiad llawn o’r cysodfannau bws ynghyd ac ymgymryd â gwaith cychwynnol i ymchwilio fewn i’r posibilrwydd o ddarparu lloches bws ger Croesffordd Marc.

**PENDERFYNWYD:** Cynnal archwiliad o’n cysodfannau bws a chynnal arolwg i faint o alw sydd am gysodfannau oddi fewn i’r ardal lochesi fws ychwanegol

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 Adran 1 (2) yn nodi "Caiff corff, trwy benderfyniad, wahardd y cyhoedd o gyfarfod (p'un ai yn ystod yr achos cyfan neu ran ohono) pryd bynnag y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i gael ei drafod neu am resymau arbennig eraill a nodwyd yn y penderfyniad ac sy'n deillio o natur y busnes hwnnw neu'r achos; a phan fydd penderfyniad o'r fath yn cael ei basio, ni fydd y Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarfod bod yn agored i'r cyhoedd yn ystod achos y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddo. "

**1247. Ar gyfer yr eitem nesaf (1248) fod y cyngor yn penderfynu atal y cyhoedd a’r wasg (os yn bresennol) o’r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y busnes a drafodir. Hefyd mewn amgylchiadau arbennig iawn mae’n ddelfrydol i aelodau presennol barchu cyfrinachedd yr hyn a drafodir ac i’r perwyl hyn, fod yr eitem nesaf yn disgyn i’r categori hwn.**

**1248. I dderbyn adroddiad ar ddigwyddiad diweddar yn ymwneud a’r fynwent.**

1) I awdurdodi Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent a’r Clerc Gysylltu â’r contractwr.
2) Fod y cyngor yn ystyried ei gyfrifoldeb o ran Iechyd a Diogelwch tuag at y Clerc ac unrhyw Aelod o’r cyngor a pa gamau gellir eu mabwysiadu i’w amddiffyn.
3) Fod hyn yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y cyngor
4) Fod y cyngor eisoes wedi adnabod yr achwynydd fel un blinderus a'i fod yn parhau i’w adnabod fel achwynydd blinderus.
5) Fod y digwyddiad yma yn cael ei adrodd at yr Heddlu (os yn briodol).

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhawyd y pum pwynt uchod

Daeth y cyfarfod i ben am 20:50

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 16 Ionawr 2024